YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

CANLLAWIAU AR GYFER RHEINI SYDD YN CYFLWYNO CEISIADAU AR GYFER YSGOLION SUL

1. Mae'n bosibl cynnig grantiau ar raddfa o 50% o'r gwariant.

2. Mae'r gwariant derbyniol yn cynnwys llyfrau, fideos, posteri, taflunydd dros ysgwydd a sgrin, offer teledu a fideo ynghyd â meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol.

3. Uchafswm maint unrhyw grant fydd **£500**.

4. Rhoddir grantiau ond yn yr achosion hynny lle mae'n amlwg bod sefyllfa o angen ariannol yn bodoli. Yn y cyswllt hwn bydd yr Ymddiriedolwyr yn edrych yn ofalus ar gyfrifon diweddaraf yr Eglwys a'r Ysgol Sul. Lle penderfynir bod gan eglwys adnoddau digonol i gwrdd a'r gwariant, ni fydd cymorth o'r Ymddiriedolaeth ar gael (fel canllaw noder, yn arferol, os fydd gan yr Eglwys adnoddau ariannol yn fwy na **£20,000** ni fydd cymorth ar gael).

5. Ni ellid ystyried cais o fewn blwyddyn i unrhyw gais blaenorol.

6. Pan yn cyflwyno'r ffurflen gais, rhaid cyflwyno talebau yn cyfateb i'r gwariant, ynghyd â chopiau o gyfrifon blynyddol diweddaraf yr Eglwys a'r Ysgol Sul (hynny yw, rhaid prynu'r defnyddiau cyn cyflwyno'r cais).

7. Ni ellid ystyried ceisiadau am wariant a ddigwyddodd mwy na blwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais.